

Prifysgol Bangor

Datganiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil Tachwedd 2021

Cefndir

1. Mae Uniondeb Ymchwil yn egwyddor arweiniol ar gyfer yr holl weithgaredd ym Mhrifysgol Bangor ("Prifysgol"), fel y nodir yn Nogfen Strategaeth 2030 y Brifysgol:

'Rydym yn gweithredu gyda gonestrwydd a thryloywder a byddwn yn ymdrechu i gydweithredu ym mhopeth a wnawn. Byddwn yn hwyluso twf deallusol trwy ryddid academaidd, mynegiant creadigol, cyfathrebu gwirionedd a gwybodaeth, a datblygiad cymdeithasol a moesol.'

Mae'n faes ffocws strategol allweddol i'r Brifysgol, ac rydym yn ymroddedig i gefnogi'r lefelau uchaf o uniondeb a rhagoriaeth ymchwil. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal egwyddorion ac arferion Concordat Prifysgolion y DU i Gefnogi Uniondeb Ymchwil ("Concordat")

2. Dyma Ddatganiad Blynyddol y Brifysgol ar Uniondeb Ymchwil ("Datganiad Blynyddol") sy'n cwmpasu'r cyfnod 1 Awst 2020 i 31 Gorffennaf 2021. Fel yr argymhellwyd gan y Concordat, mae'r Datganiad Blynyddol hwn wedi'i gymeradwyo gan Senedd, Pwyllgor Gweithredu a Chyngor y Brifysgol a bydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol.

3. Mae'r Concordat yn ei gwneud hi'n ofynnol i'w lofnodwyr baratoi datganiad blynyddol byr i'w corff llywodraethu, gan adrodd am y canlynol:

- (i) crynodeb o'r camau gweithredu a'r gweithgareddau a wnaed i gefnogi ac atgyfnerthu dealltwriaeth a chymhwysio materion uniondeb ymchwil;
- (ii) datganiad i roi sicrwydd bod y prosesau sydd wedi eu sefydlu gan y sefydliad ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, yn amserol, yn gadarn ac yn deg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad;
- (iii) datganiad lefel uchel ar unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn ymchwil a gynhaliwyd, a fydd yn cynnwys data ar nifer yr ymchwiliadau. Os na chynhaliwyd ymchwiliad ffurfiol, dylid nodi hyn hefyd;
- (iv) datganiad ar yr hyn y mae'r sefydliad wedi'i ddysgu o unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn ymchwil a gynhaliwyd, gan gynnwys pa wersi a ddysgwyd i atal yr un math o ddigwyddiad rhag digwydd eto; a
- (v) datganiad ar sut mae'r sefydliad yn creu ac yn ymgorffori amgylchedd ymchwil lle mae'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrwyr yn teimlo'n gyffyrddus i roi gwybod am achosion o gamymddwyn.

4. Mae'r datganiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod 1 Awst 2020 i 31 Gorffennaf 2021

Camau a gweithgareddau a wnaed

1. Mae'r Brifysgol yn llwyr gydnabod y rheidrwydd i gynnal y safonau uchaf o ran uniondeb ymchwil ac, felly, mae'n ceisio cydymffurfio â'r Concordat, trwy fonitro a hyrwyddo ymarfer gorau yn barhaus. Fel rhan o hyn mae'r Brifysgol, ac o fewn cyfnod y datganiad hwn, wedi dechrau adolygiad o'i phroses llywodraethu ymchwil. Mae hyn wedi cynnwys:
2. Penodi Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil yn adrodd i Ddirprwy Ysgrifennydd y

Brifysgol a Phennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu sydd â chyfrifoldeb i oruchwylio llywodraethu ymchwil yn ganolog ac i ddatblygu a rheoli polisiau, systemau a gweithdrefnau, hyrwyddo ymarfer gorau a chefnogi'r Brifysgol i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan delerau'r Concordat.

3. Sefydlu Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol, fel yr arweinydd academiaidd, i ailstrwythuro uniondeb ymchwil a threfniadau llywodraethu'r Brifysgol, i wella cefnogaeth a hyfforddiant ar draws Colegau, Ysgolion a staff ymchwil-gynhyrchiol y Brifysgol.
4. Fel rhan o ailstrwythuro sefydliadol ehangach, cydrannau beirniadol integredig o uniondeb ymchwil a llywodraethu ymchwil (gan gynnwys diwydrwydd dyladwy ac ati) yn ogystal â chontractau, gan gynnwys contractau a chytundebau masnacheiddio, o dan y Gwasanaethau Llywodraethu; yn ogystal ag ailstrwythuro swyddfa ymchwil y Brifysgol fel y Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi Integredig ("IRIS") i ddarparu cefnogaeth o ansawdd uchel ar draws ymchwil, effaith a chyfnewid gwybodaeth i'r gymuned academiaidd. Mae cefnogaeth a gweinyddiaeth Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil y Brifysgol ("REF") bellach yn gorwedd o dan ymbarél IRIS tra bod y gwasanaeth ar ôl ennill grant yn parhau yn yr uned Gyllid.
5. Dechreuwyd ar waith i gaffael system cymeradwyo moeseg electronig newydd i ddarparu system integredig ar gyfer prosesau adolygu moeseg ymchwil y Brifysgol gan gynnwys ei phortffolio dynol ac anifeiliaid. Gweithredir y system o dan arweiniad gweithgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tri Choleg academiaidd, gan gynnwys o Bwyllgorau Moeseg Ymchwil Academiaidd y Brifysgol. Bydd y gwaith yn cael ei arwain gan Wasanaethau Digidol y Brifysgol gyda chefnogaeth y Gwasanaethau Llywodraethu.
6. Mae systemau'n bodoli i gefnogi rheoli grantiau strwythurol/isadeiledd mawr. Er enghraifft, ar gyfer rhai projectau ymchwil mawr (e.e., Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru), neu ar gyfer y rhai sydd â heriau penodol, mae gan y Brifysgol fyrddau projectau a rhaglenni rheolaidd i graffu ar adenillion i gyllidwyr a monitro cynnydd a pherfformiad.

Polisi, gweithdrefn a chanllawiau cyfredol

1. Cefnogir uniondeb ymchwil ledled y Brifysgol. Mae Gwasanaethau Llywodraethu ac IRIS yn gweithio'n agos gyda Cholegau ac Ysgolion Academiaidd i sicrhau bod polisiau a chanllawiau yn addas i'r diben. Mae'r cydweithio hyn yn allweddol i atgyfnerthu uniondeb ymchwil.
2. Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd cynnal y safonau uchaf o ran uniondeb ymchwil ac felly mae'n cydymffurfio â'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil. Yr Is-ganghellor a'r Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil ac Arloesi sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am uniondeb ymchwil a llywodraethu ymchwil. Cyfrifoldeb y Dirprwy Ysgrifennydd a Phennaeth Gwasanaethau Llywodraethu yw cynllunio a gweithredu polisiau ac ymarfer da sydd wedi dynodi'r Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil i oruchwylio'r maes hwn. Yn ogystal, mae'r Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol ar gyfer Llywodraethu Ymchwil yn darparu cyfeiriad strategol academiaidd ar gyfer llywodraethu ymchwil gyda Chadeiryddion y Pwyllgor Moeseg Ymchwil Academiaidd. Disgwylir i Benaethiaid Ysgolion gymryd cyfrifoldeb am sicrhau cyfeiriad ymchwil strategol priodol a bod ymchwilwyr yn cael eu goruchwylio'n effeithiol yn eu Colegau a'u Hysgolion, gan gynnwys cyngor cychwynol ar faterion uniondeb ymchwil ac ymddygiad academiaidd, gyda Gwasanaethau Llywodraethu yn ymdrin â phryderon ynglŷn â chamymddwyn academiaidd.
3. Mae Pwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol, is-bwyllgor o Senedd y Brifysgol, wedi cymryd lle hen Bwyllgor Moeseg y Brifysgol a hwn yw'r prif bwyllgor ym

Mhrifysgol Bangor ar gyfer ystyried llywodraethu ymchwil a materion moesegol. Mae'r Pwyllgor yn rhoi cyngor ar strategaethau eang ar gyfer moeseg ac mae'n monitro perfformiad y Brifysgol yn gyffredinol yn hytrach nag ystyried materion unigol, megis cynigion ymchwil. Mae'r Pwyllgor Moeseg wedi datganoli cyfrifoldeb am y broses adolygu a chymeradwyo moesegol yn y tri choleg i'r pwyllgorau moeseg ymchwil academiaidd perthnasol yn y colegau. Diffinnir pwyllgor moeseg ymchwil academiaidd fel corff amlddisgyblaethol ac annibynnol sy'n gyfrifol am adolygu gwaith ymchwil y mae pobl yn cymryd rhan ynddo er mwyn sicrhau bod eu hurddas, eu hawliau a'u lles yn cael eu diogelu. Mae Cadeiryddion Pwyllgorau Moeseg Ymchwil Academiaidd yn darparu adroddiadau i Bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol ym mhob cyfarfod, a fydd yn cynnwys cyflwyno adroddiad blynyddol i'r cyfarfod cyntaf yn y flwyddyn academiaidd. Gallant gyfeirio unrhyw faterion moesegol sy'n achosi pryder at yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil sy'n gwasanaethu fel Ysgrifennydd y Pwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil ac a fydd yn sefydlu is-bwyllgor o'r Pwyllgor Moeseg, lle bo hynny'n briodol i ystyried y mater a gwneud argymhellion.

4. Mae'r *Drefn i Gymeradwyo a Chofrestru Projectau Ymchwil Sensitif* yn cefnogi ymchwilwyr Prifysgol Bangor i ymgymryd ag ymchwil ddilys gan ddefnyddio deunydd sensitif. Mae'r Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif yn gyfrifol am y broses gymeradwyo a chofrestru, gan gynnwys storio deunyddiau ymchwil sy'n ymwneud â'r prosiectau hyn yn ddiogel.
5. Mae gan y Brifysgol God Ymarfer Uniondeb Academiaidd mewn Ymchwil. Mae'r ddogfen yn nodi canllawiau ar y materion sy'n gysylltiedig â chynnal ymchwil yn briodol, ac yn ôl y safonau a ddisgwylir. Mae'r Cod Ymarfer yn datgan yn gwbl glir bod y Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff academiaidd gynnal safonau uchel o ymddygiad academiaidd ac, yng nghyd-destun ymchwil, fod yn ymwybodol o ddifrifoldeb dirfawr twyll academiaidd, a bod yn effro i'r angen i osgoi ymddygiad o'r fath, p'un ai trwy ffugio canlyniadau ymchwil, llên-ladrad neu arall.
6. Mae'r Cod yn mynnu bod gonestrwydd, bod yn agored, atebolrwydd ac uniondeb yn rhinweddau hanfodol i unrhyw ymchwilydd academiaidd waeth beth yw eu disgyblaeth neu lefel eu profiad.
7. Disgwylir y bydd yr holl fyfyrwyr a staff ymchwil-gynhyrchiol yn gwneud y canlynol:
 - cymryd camau i ymgylfarwyddo â'r canllawiau sydd ar gael ynglŷn ag 'ymarfer gorau' mewn perthynas â materion polisi ymchwil, cyllid neu ddiogelwch sy'n berthnasol i'w maes ymchwil;
 - cadw at y gofynion cyfreithiol a moesegol a bennir gan y Brifysgol neu unrhyw gyrrff eraill a benodwyd yn briodol ac sy'n ymwneud â'u maes ymchwil;
 - cymryd camau i sicrhau diogelwch y rhai sy'n gysylltiedig â'r ymchwil;
 - rhoi gwybod am unrhyw wrthdaro buddiannau, boed yn wrthdaro gwirioneddol neu ddarpar, i'r awdurdod priodol; sicrhau tegwch a cyfartaledd wrth gynnal eu hymchwil.
8. Mae'r brifysgol yn cydymffurfio â'r holl ofynion rheoliadol a statudol perthnasol gan gynnwys, er enghraifft, y Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol), Rheoliadau Meinweoedd Dynol a rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.
9. Mae'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yn gyfrifol am adolygu a chymeradwyo'n foesegol yr holl waith sy'n dod o dan adain y Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol). Mae'r Corff hefyd yn ystyried rhywfaint o waith gydag anifeiliaid lle nad yw'r Ddeddf yn berthnasol (e.e. gwaith gydag anifeiliaid gwarchoddedig sy'n digwydd dramor). Mae'r Corff yn adrodd i Bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol

10. Ar hyn o bryd, rheolir y maes rheoledig allweddol Meinwe Dynol ar lefel Coleg. Mae'n rhaid i unrhyw weithgaredd yn y Brifysgol sy'n ymwneud â defnyddio organau, meinwe a chelloedd (yn cynnwys poer, gwaed ac ati sy'n cynnwys celloedd), ddilyn amodau safonol caeth ac mae'n rhaid i ymchwilwyr sicrhau bod eu defnydd o feinwe ddynol wedi ei gymeradwyo'n foesebol trwy'r System Ceisiadau Ymchwil Integredig a'u bod wedi sicrhau'r cydsyniad priodol. Rhaid i ymchwilwyr sydd eisiau gwneud ymchwil sy'n cynnwys meinwe dynol ymgynghori ag Unigolyn Dynodedig Meinwe Dynol) y Brifysgol cyn cychwyn unrhyw ymchwil. Caiff ymchwil clinigol ei adolygu a'i gymeradwyo gan Awdurdod Ymchwil Iechyd a Phwyllgorau Moeseg Ymchwil y GIG ac mae pob treial clinigol wedi'i gofrestru'n gyhoeddus.
11. Mae meysydd rheoledig allweddol eraill yn cael eu rheoli ar lefel eu coleg ac maent wedi cynnwys cymeradwyo, achredu, neu gydnabyddiaeth gan amrywiaeth amrywiol o Gyrrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio fel y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Estyn, Advance HE, Sefydliad Rheolaeth Siartredig a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.
12. Mae'r Brifysgol eisiau cydymffurfio'n llawn â gofynion Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol gan gynnwys fel y mae'n berthnasol i weithgaredd ymchwil. Mae cyngor ac arweiniad ar faterion Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol o fewn y Gwasanaethau Llywodraethu, ac mae wedi ei gysylltu'n agos â'r swyddogaeth llywodraethu ymchwil a moeseg. Mae'n amod cyflogaeth y bydd staff yn cydymffurfio â rheolau a pholisïau diogelu data'r Brifysgol. Yn benodol, rhaid i'r holl staff sicrhau:
- y cedwir yr holl wybodaeth bersonol a ymddiriedir iddynt yn ystod eu cyflogaeth yn ddiogel.
 - nad oes unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei datgelu naill ai ar lafar neu ar bapur, yn ddamweiniol neu fel arall, i unrhyw drydydd parti heb awdurdod.
 - ni ddylai staff fynd at wybodaeth bersonol am unrhyw reswm ac eithrio busnes dilys y Brifysgol.
 - bod unrhyw wybodaeth a ddarperir ganddynt i'r Brifysgol mewn cysylltiad â'u cyflogaeth eu hunain yn gywir a chyfredol a'u bod yn rhoi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw newidiadau, e.e. newid cyfeiriad.
 -
13. O ran hyfforddiant, mae'r Brifysgol hefyd yn un o lofnodwyr y Concordat Datblygu Ymchwilwyr ac, ers 2015, mae wedi cynnal gweithgor, dan arweiniad Deon y Brifysgol, i weithredu, ymgorffori a hyrwyddo egwyddorion y Concordat hwn ac i hyrwyddo ymarfer gorau; er enghraifft, wrth hyfforddi Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa. Mae'r grŵp yn dwyn ynghyd staff cefnogi allweddol ynghyd â chynrychiolwyr academiaidd o bob rhan o'r Brifysgol ac yn adrodd yn uniongyrchol i Grŵp Strategaeth Ymchwil, Arloesi ac Effaith y Brifysgol (RIISG).
14. Bydd staff sydd newydd eu penodi gan gynnwys yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil a'r Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol yn sicrhau y bydd hyfforddiant ar bynciau sy'n ymwneud ag uniondeb ymchwil ar gael trwy Raglenni Datblygu Cynefino Staff Adnoddau Dynol y Brifysgol. Fel rhan o drafodaeth ymchwil ehangach, rydym eisiau trefnu rhaglenni ychwanegol ar gyfer hyfforddiant ledled y brifysgol mewn uniondeb ymchwil megis cyrsiau mewn cyfathrebu, cyfrifoldeb cymdeithasol, gwrthdaro buddiannau, cynllunio ymchwil, rheolaethau allforio ac eiddo deallusol

Datganiad ar ymchwiliadau ffurfiol i Gamymddwyn Ymchwil Academiaidd

1. Yn ystod blwyddyn academiaidd 2020/21 hyd yma, ni chafodd unrhyw honiad ei symud ymlaen i ymchwiliad ffurfiol. Ni chofnodwyd unrhyw honiadau am y ddwy flynedd flaenorol:

- ni chafodd neb eu diswyddo yn y cam rhagarweiniol; ac
 - nid oes unrhyw achosion yn dal i gael eu hystyried
2. Yn ystod blwyddyn academiaidd 2020/21, cynhaliwyd ymchwiliad anffurfiol ynglŷn â chonfensiynau enwi nadroedd.
 3. Mae tabl wedi'i aseinio yn Atodiad 1 ar gyfer y 3 blynedd academiaidd ddiwethaf a gwblhawyd gyda blwyddyn 1 yn cynrychioli'r flwyddyn a gwblhawyd yn fwyaf diweddar.

Gwersi o ymchwiliadau ffurfiol a gynhaliwyd i gamymddwyn ymchwil

1. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ni fu unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn. Mae'r Brifysgol yn seilio ei phrosesau ar gyfer cynnal ymchwiliadau ar y canllawiau a ddarperir gan UKRIO ac yn defnyddio cysylltiadau â'r gymuned rheoli ymchwil ehangach i lywio unrhyw adnewyddiad i'n polisïau. Mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn wyladwrus ac yn cymryd unrhyw honiad o ddifrif ac fel cefnogwyr y concordat i gefnogi uniondeb ymchwil, rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:
 - cynnal y safonau uchaf o drylwyredd ac uniondeb ym mhob agwedd ar ymchwil
 - sicrhau bod ymchwil yn cael ei gynnal yn unol â fframweithiau, rhwymedigaethau a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol priodol
 - cefnogi amgylchedd ymchwil sy'n seiliedig ar ddiwylliant o uniondeb ac wedi'i seilio ar lywodraethu da, arferion gorau a chefnogaeth i ddatblygu ymchwilwyr
 - defnyddio prosesau tryloyw, cadarn a theg i ymdrin â honiadau o gamymddwyn ymchwil pe baent yn codi
 - cydweithio i gryfhau uniondeb ymchwil ac i adolygu cynnydd yn rheolaidd ac yn agored
2. Mae'r weithdrefn yn cael ei diweddarau gan yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil a benodwyd yn ddiweddar. Bydd adolygu a, lle bo angen, gwella prosesau camymddwyn ymchwil yn parhau i fod yn rhan o adolygiad y Brifysgol o drefniadau llywodraethu ymchwil ac uniondeb ymchwil.

Ymgorffori amgylchedd ymchwil sy'n annog bod yn agored a pharodwydd i roi gwybod am achosion o gamymddwyn.

1. Mae Cod Ymarfer ymchwil y Brifysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r angen i gynnal safonau uchel o ymddygiad academiaidd o ran nodweddion cadarnhaol gonestrwydd, bod yn agored, atebolrwydd ac uniondeb, fel rhinweddau hanfodol i unrhyw ymchwilydd academiaidd waeth beth yw eu disgyblaeth neu lefel eu profiad. Trwy nifer o fecanweithiau, gan gynnwys Adolygiadau Datblygiad Proffesiynol staff, gweithredu'r Concordat Datblygu Ymchwilwyr, y rhaglen fentoriaeth a ddiwygiwyd yn ddiweddar a hyfforddiant i oruchwylwyr PhD a staff, rydym eisieu sicrhau bod unigolion yn cael eu grymuso i godi pryderon lle y gall fod achosion o ymarfer academiaidd gwael neu gamymddygiad. Bydd staff yn cael gwybod am broses lle gall unigolion fynd at yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil yn gyfrinachol ac y cymerir camau priodol. Mae gan y Brifysgol hefyd Bolisi a Gweithdrefnau Datgelu Er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban).

Paratoi'r datganiad hwn

1. Paratowyd a chydlynwyd y datganiad hwn gan y Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol ar gyfer Llywodraethu Ymchwil, Dirprwy Ysgrifennydd a Phennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu, Pennaeth Dros Dro Cefnogaeth Ymchwil ac Effaith a'r Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil.

2. Cyflwynwyd a thrafodwyd y datganiad mewn cyfarfod o Senedd y Brifysgol ar 10 Tachwedd 2021, Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol ar 17 Tachwedd 2021 a Chyngor y Brifysgol ar 26 Tachwedd 2021. Mae newidiadau a awgrymir yn y cyfarfodydd hyn wedi'u hymgorffori yn fersiwn derfynol y Datganiad Blyneddol hwn.

Robert Rogers (Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol ar gyfer Llywodraethu Ymchwil)
Gwenan Hine (Dirprwy Ysgrifennydd a Phennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu)
Pauline Muya (Pennaeth Dros Dro Cefnogaeth Ymchwil ac Effaith)
Colin Ridyard (Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil)
Tachwedd 2021

